

CYNGOR SIR Y FFLINT
LINDEN AVENUE, BEECHWOOD AVENUE A ST DAVID'S DRIVE, CEI CONNAH
GWAHARDDIAD ARFAETHEDIG I AROS AR UNRHYW ADEG A DIM STOPIO

Datganiad o'r Rhesymau dros argymell gwneud y Gorchymyn


Bydd Cyflwyno'r Cyfyngiadau Dim Aros ar Unrhyw Adeg a Dim Stopio yn gwella diogelwch cerddwyr a holl ddefnyddwyr y ffordd drwy gael gwared ar gerbydau wedi'u parcio mewn lleoliadau allweddol a gwella llif y traffig ger Ysgol Bryn Deva. Bydd hefyd yn sicrhau bod mynediad ar gael i drigolion lleol, bydd yn atal rhwystrau, yn cynnal gwelededd ger y cyffyrdd ac yn sicrhau nad yw'r cyffyrdd wedi'u rhwystro gan gerbydau wedi eu parcio.

Mae parcio ar gyffyrdd, boed llinellau melyn yno neu beidio, yn drosedd ac mae'r cyfyngiadau hyn yn rhwystr gweledol i atgyfnerthu'r neges hon. Ar hyn o bryd, pe bai cerbydau'n parcio o fewn 10 metr i gyffordd, gallai hynny gael ei ystyried yn drosedd ac felly byddai'n destun camau gorfodi gan Heddlu Gogledd Cymru. At hynny, mae Rheolau'r Ffordd Fawr yn nodi na ddylai cerbydau barcio ger neu ar gyffordd oherwydd gallen nhw achosi rhwystr a pheryglu diogelwch defnyddwyr y ffordd.

Prif bryder yr Awdurdodau yw diogelwch a lles y cyhoedd, yn cynnwys Plant sy'n mynd a dod o'r Ysgol. Drwy ddarparu amgylchedd diogel i gerddwyr, mae hyn yn lleihau'r perygl y bydd damweiniau'n digwydd rhwng defnyddwyr diamddiffyn a cherbydau modur a bydd yn annog mwy o ddisgyblion i gerdded neu feicio i Ysgolion yn yr ardal.

Mae'r Cyngor Sir yn parhau â'i gyfrifoldeb i ystyried darpariaeth symudiad cyfleus a diogel cerbydau modur a thraffig arall, ac mae'r mesurau a gynigir yn ceisio sicrhau bod y perygl yn cael ei leihau ar gyfer defnyddwyr ffordd diamddiffyn ynghyd â gwella amwynder yr ardal.

Manylir ar y cynigion yn yr Hysbysiad Cyhoeddus ac yn y Gorchymyn arfaethedig



Katie Wilby
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth),
Neuadd y Sir,
Yr Wyddgrug, CH7 6NF
Sir y Fflint.
Dydd Gwener 14 Ionawr 2022.